PRYDAIN DDIGIDOL

Yr Adroddiad Interim

IONAWR 2009

BERR | Department for Business Enterprise & Regulatory Reform

dcms
department for culture, media and sport

Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon
a'r
Adran Busnes,
Menter a Diwygio Rheoleiddio

Prydain Ddigidol

Yr Adroddiad Interim

Cyflwynwyd i'r Senedd gan
yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon
a'r Gweinidog dros Gyfathrebu,
Technoleg a Darlledu.

Drwy Orchymyn Ei Mawrhydi

Ionawr 2009

Cyflwyniad a Chrynodeb Gweithredol

Ledled y byd, mae technolegau digidol a band eang yn ail-lunio ein diwydiannau Cyfathrebu, Adloniant, Hysbysrwydd a Gwybodaeth, yr economi ehangach, a dull pawb ohonom o fyw. Rydym wedi cyrraedd adeg o drawsnewid. Bydd llwyddiant ein diwydiannau gweithgynhyrchu a gwasanaethau'n cael ei ddiffinio'n gynyddol gan eu gallu i ddefnyddio a datblygu technolegau digidol. Rhaid i Brydain lwyddiannus fod yn **Brydain Ddigidol**.

Mae technoleg ddigidol wedi deillio ar chwyldro tawel dros y degawd diwethaf yn ein bywydau yn y gwaith, yn ein cartrefi ac yn ein horiau hamdden. Bellach, mae llawer ohonom yn cymryd byd o gyfathrebu cyson yn ganiataol; byd lle ceir trosglwyddo data ar raddfa fawr o'r cartref i'r gwaith ac i'r gwrthwyneb, gan arwain at batrymau gweithio newydd sy'n fwy effeithlon o ran cludiant ac yn fwy ystyriol o deuluoedd; cannoedd o sianelau teledu a radio; cynnwys a gynhyrchir gan y defnyddiwr; cysylltioldeb di-oed â rhithgymunedau diddordeb a chyfeillgarwch; a'r gallu i gadw rhwydweithiau teuluol estynedig mewn cysylltiad drwy gyfrwng delweddau yn ogystal â geiriau.

Mae'r Sector Cyfathrebu'n un o'r tri sector mwyaf yn ein heconomi, ochr yn ochr ag ynni a gwasanaethau ariannol. Mae economi digidol y DU yn cyfrif am oddeutu 8% o Gynnyrch Mewnwladol Crynswth (GDP). Bu'n un o'r llwyddiannau a dyfodd gyflymaf dros y degawd diwethaf. Rydym wedi arloesi ym meysydd teledu a radio digidol, ac wedi arwain y ffordd mewn rhaglen genedlaethol ar gyfer newid i ddigidol. Mae'r niferoedd sy'n manteisio ar fand eang cenhedlaeth gyntaf wedi tyfu'n gyflymach na'r niferoedd ym mron y cyfan o'r prif economïau eraill. Ym Mhrydain y ceir y gyfran uchaf o hysbysebu ar y rhyngrwyd mewn unrhyw economi datblygedig. Erbyn 2012, bydd £1 o bob £5 o fasnach newydd yng Ngwledydd Prydain yn digwydd ar-lein.

Yn bwysicach na hynny, mae'r economi digidol yn tanategu ein heconomi cyfan ac yn adeiladu ein cystadleurwydd cenedlaethol. Mae ein parodrwydd i fabwysiadu technoleg ddigidol wedi sbarduno cynnydd mewn cynhyrchedd ledled yr economi ehangach. Dros y deng mlynedd diwethaf bu'r DU yn cau'r bwlch cynhyrchedd hanesyddol rhyngddi hi ac economïau blaenllaw eraill Ewrop yn gyson, ac mae hynny'n seiliedig i raddau helaeth ar ein mabwysiad a'n defnydd o dechnoleg ddigidol.

Ond mae ein cynhyrchedd yn dal i lusgo gryn dipyn ar ôl cynhyrchedd UDA, ac rydym yn wynebu sialensiau newydd o gyfeiriad cwmnïau arloesol economïau llwyddiannus Asia. Ar eu gorau, maent yn cyfuno cystadlu ffyrnig, sy'n darparu datblygu newydd a gwasanaethau i gwsmeriaid, gyda fframwaith rheoleiddio sy'n cydbwyso gwerth buddsoddi yn y genhedlaeth nesaf o dechnolegau yn erbyn buddion marchnad gystadleuol i'r defnyddiwr.

Felly ni ellir cymryd safle cystadleuol Prydain fel defnyddiwr a chynhyrchydd technoleg ddigidol yn ganiataol. Yn UDA, mae datblygu'r economi digidol, defnyddio rhwydweithiau modern, a mynediad i fand eang ar y rhyngrwyd i bawb, yn rhan ganolog o raglen y Weinyddiaeth newydd. Mae Llywodraeth Ffrainc wedi lansio strategaeth ddiwygio uchelgeisiol ar gyfer eu Sector Cyfathrebu. Mae tabl cynghrair y Comisiwn Ewropeaidd o fabwysiad, sgiliau a defnydd digidol ledled y byd yn dangos bod y DU, ar ôl bod ymysg y saith gwlad uchaf yn gynharach yn y degawd, wedi llithro i'r deuddegfed safle.

Yn erbyn y cefndir hwn, mae'r adroddiad hwn yn pwyso a mesur parodrwydd y DU i ymelwa'n llawn ar y symudiad dramatig i dechnoleg ddigidol fel sylfaen i rannau enfawr o'n heconomi a'n bywydau preifat. Nid yw'r chwyldro hwn ond yn ddeng mlwydd oed – mae'n dal yn ei fabandod. Bydd ein galwadau arno a'n disgwyliadau ohono'n cynyddu'n gyflymol. A ydym mewn sefyllfa i fodloni'r galwadau a'r disgwyliadau hynny?

Casgliad cyntaf, hollbwysig y dadansoddiad yr ydym wedi ei wneud yw bod yn rhaid i ni, fel gwlad, sicrhau bod ein rhwydweithiau cyfathrebu a darlledu gwifrog a di-wifr yn gallu bodloni gofynion economi modern seiliedig ar wybodaeth. Mae llawer o waith wedi ei wneud eisoes, ond dros y pum mlynedd nesaf bydd angen i ni uwchraddio'r rhwydweithiau hyn er mwyn dal ein lle a gwireddu ein huchelgeisiau.

Mae hyn yn golygu bod ymagwedd weithredol a strategol ar ran y llywodraeth yn anhepgor os ydym am gau'r bwlch. Mae arnom angen cynllunio'n awr, adnabod y methiannau yn y farchnad sy'n rhwystro ymestyniad llawn o isadeiledd digidol yn y DU, a gweithredu'n gyflym ar lefel Llywodraeth i gynorthwyo'r farchnad i ddarparu, yn amserol, yr isadeiledd o allu uchel y bydd arnom ei angen. Bydd y weithredaeth ddiwydiannol hon o du'r llywodraeth yn allweddol i sicrhau bod y DU yn cael y gorau o'r economi digidol.

Y canolbwyntio byd-eang cynyddol ar dechnoleg ddigidol

Newidiodd ymgyrch etholiadol yr Arlywydd Obama, a oedd yn seiliedig ar dechnoleg, natur etholiadau UDA, ac mae'r Arlywydd newydd wedi rhoi ar ddeall ei fod yn ystyried bod technoleg ac isadeiledd cyfathrebu cryf yn hanfodol i adferiad a thwf economaidd. Mae hyn yn cynnwys ymagwedd radical at y defnydd o isadeiledd cyfathrebu modern, gan gynnwys ailddiffinio 'gwasanaeth cyffredinol' er mwyn ymestyn ei gwmpas i gynnwys band eang, a rhyddhau grym y sbectrwm radio di-wifr.

Mae uchelgais digidol yr Arlywydd yn cael ei ailadrodd ar draws y byd. Mae Llywodraeth Ffrainc wedi lansio'i chynllun 'France Numérique 2012' yn ddiweddar – strategaeth uchelgeisiol ar gyfer y sector cyfathrebu sydd â'r bwriad o gryfhau safle digidol Ffrainc a gwella'i chystadleurwydd ehangach ar adeg o arafu ac argyfwng economaidd byd-eang. Mae'r neges sy'n cael ei mynegi yn y cynllun yn un glir: yr economi digidol yw'r sector mwyaf dynamig yn y byd, ac wrth i'r dirwasgiad byd-eang ddwysáu, mae'n hanfodol meithrin y rhannau hynny o'r economi sy'n gallu creu posibiliadau o dwf a swyddi.

Nid mater o gystadleurwydd economaidd yn unig yw hyn, ond hefyd o degwch. Rydym wedi cyrraedd y man hwnnw yn natblygiad technoleg lle mae arnom angen rhaglen ar gyfer sicrhau bod pawb yn gallu cysylltu â'r economi digidol, a bod ei fuddion a'i fanteision ar gael i bawb. Mae hyn yn golygu sicrhau bod pawb yn gallu cael at y sgiliau i gyfranogi'n effeithiol ohono; a bod y cynnwys a'r gwasanaethau sydd ar gael yn creu rheswm da i bawb gymryd rhan.

Mae'r gymdeithas ddigidol yn cynnig i ni, fel dinasyddion, fwy o allu i gael at wybodaeth, cyfranogiad a dylanwad, yn anad dim yn y broses ddemocrataidd – yr Etholiad Arlywyddol diweddar yn UDA oedd y cyntaf i gael ei benderfynu cymaint ar-lein ag all-lein. Yn ychwanegol at newyddion a chyfranogiad democrataidd, mae'r byd digidol yn cynnig cyfle i unigolion gael at amrywiaeth ehangach o gynnwys gwasanaeth cyhoeddus nag erioed o'r blaen – cynnwys sy'n cynnig gwybodaeth ac addysg wirioneddol yn ogystal â difyrru.

Bydd y rhaglenni addysg, sgiliau a llythrennedd cyfryngol sy'n angenrheidiol er mwyn caniatáu i bawb mewn cymdeithas gael budd o'r chwyldro digidol yn rhan ganolog o'r gwaith 'Prydain Ddigidol', ac yn allweddol i'n llwyddiant. Rhaid i ni sicrhau bod cysylltioldeb digidol o fewn gafael pawb. Os na wnawn hynny, byddwn mewn perygl o adael rhannau sylweddol o'n cymdeithas yn ddifreiniedig ac yn llusgo ar ôl y prif lif am byth. Wrth wneud hynny, buasem yn methu â sicrhau llawn botensial y technolegau hyn ar gyfer ein gwlad.

Mae'n bwysig i'r DU ein bod yn derbyn, drwy rwydweithiau digidol, gynnwys sy'n berthynol i'n diwylliant a'n profiadau fel cymdeithas, ac sy'n cynnig gwybodaeth i ni fel dinasyddion gwladwriaeth ddemocrataidd. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu cynnwys sydd wedi ei gynhyrchu yn y DU ar gyfer defnyddwyr yn y DU, a ffynonellau lluosryw o newyddion gwybodus, cywir a diduedd, ac o sylwebaeth a dadansoddiad gwybodus. Y farchnad fydd yn darparu rhywfaint o'r cynnwys hwn bob amser, ond mae arnom

angen penderfynu beth arall sydd arnom ei angen, a gwneud penderfyniadau polisi sy'n cyflawni hynny. Beth yr ydym ni, fel cymdeithas, yn ei ddisgwyl ac yn ei ofyn, a pha sefydliadau a pholisïau fydd yn ei ddarparu orau?

Heddiw, mae gan wledydd Prydain amrywiaeth o sefydliadau ac ymyriadau a gafodd eu cynllunio ar gyfer yr oes analog. Hyd yma, dim ond y BBC sydd wedi meddu ar y cyrhaeddiad, y gallu strategol a gweithredol, a'r cyllid i ddarparu cynnwys o'r fath ar raddfa fawr ar draws y dirwedd ddigidol. Yn yr adroddiad interim hwn, rydym yn edrych ar y posibiliadau ar gyfer ymyriadau modern eraill a allai ddarparu ar gyfer cynnwys digidol Prydeinig lluosryw, ac ar y posibilrwydd o greu sefydliad newydd a fyddai'n meddu ar y maint a'r cyrhaeddiad sydd eu hangen ar gyfer y byd digidol amlgyfrwng ac aml-lwyfan, ac a allai weithio ochr yn ochr â'r BBC ond a fyddai â rôl wahanol.

Ar yr un pryd, mae arnom angen sicrhau bod Prydain mewn safle da i fanteisio ar y cyfleoedd sy'n gysylltiedig ag arloesi ym maes cynnwys cyfryngol newydd. Mae ein hanes o greadigrwydd ac arloesi technegol yn y cyfryngau sy'n bodoli eisoes yn sylfaen ragorol, ond mae angen cyfuno hyn â datblygu modelau busnes sy'n caniatáu i'r rhai sy'n creu cynnwys ffynnu ar lwyfannau newydd. Rhaid i ni hefyd feddu ar y rhaglenni ymchwil a datblygu a fydd yn gymorth i ni ddal ein lle.

I ni fel cymdeithas, mae technoleg ddigidol yn cynnig, yn ogystal, y gobaith o ddarpariaeth fwy *effeithiol* o wasanaethau ehangach i'r cyhoedd o ran ansawdd y gwasanaeth, cysylltedd a chyrhaeddiad ar gyfer yr unigolyn – fel y gall defnyddwyr gwasanaethau ar-lein heddiw, o NHS Direct i Wasanaeth Adnewyddu Treth Car y DVLA, dystio.

Llawn cyn bwysiced, gall y gymdeithas ddigidol gynnig darpariaeth fwy *effeithlon* o wasanaethau cyhoeddus. Bydd hyn yn hollbwysig yn wyneb cyfyngiadau tynn iawn ar wariant cyhoeddus yn y blynyddoedd i ddod, a'r £5 miliwn o arbedion effeithlonrwydd a gyhoeddwyd yn Adroddiad Rhag-Gyllidebol 2008. Mae gwario'r arian yn y gwasanaeth, yn hytrach nag ar ei ddarparu, yn fudd mawr i'r defnyddiwr a'r trethdalwr fel ei gilydd.

Bydd rhoi Prydain Ddigidol ar waith yn gofyn gweledigaeth uchelgeisiol a chlir ar ran y Llywodraeth, ac ysbryd newydd a chryfach o gydweithrediad rhwng Llywodraeth, rheolyddion a diwydiant. Byddwn yn chwarae ein rhan yn y broses o sicrhau llywodraeth agored ac effeithiol, gan gynnwys sicrhau, drwy gyrff megis Partneriaeth yr Oes Wybodaeth, fod fforymau'n bodoli ar gyfer trafodaeth reolaidd, agored ac adeiladol rhwng Llywodraeth a diwydiant.

Partneriaeth yr Oes Wybodaeth

Mae Partneriaeth yr Oes Wybodaeth (IAP) yn bartneriaeth ar gyfer gweithredu rhwng diwydiant a Llywodraeth. Mae'n cynnwys Gweinidogion a Phrif Weithredwyr prif gwmnïau TG, Electroneg, Cyfathrebu a Chynnwys y DU.

Bwrpas y Bartneriaeth yw sicrhau bod TGCh yn cael ei defnyddio'n effeithiol i gyflymu arloesi a thwf cynhyrchedd ar draws yr economi, ac i effeithio'n uniongyrchol ar flaenoriaethau busnesau bychain a chanolig. Mae hyn yn helpu'r DU i fanteisio i'r eithaf, ar raddfa fyd-eang, ar y datblygiadau technolegol, economaidd a gwleidyddol sy'n nodweddu'r oes wybodaeth ac a all sbarduno adferiad economaidd y DU.

Rydym yn credu y bydd Partneriaeth yr Oes Wybodaeth yn dod yn fforwm pwysicach fyth a mwy gwerthfawr fyth ar gyfer ymgysylltiad rhwng Llywodraeth a diwydiant, oherwydd ei bwriad i sicrhau bod addewid Prydain Ddigidol yn cael ei wireddu.

Mae arnom angen rhaglen gynhwysfawr ar gyfer Prydain Ddigidol: rhaglen gyda phum amcan ar gyfer 2012, sy'n sbarduno'r dadansoddiad a'r cynigion a geir yn yr Adroddiad Interim hwn.

Prydain Ddigidol: Pum amcan

- Uwchraddio a moderneiddio ein rhwydweithiau digidol – gwifrog, di-wifr a darlledu – fel bod gan Brydain isadeiledd sy'n ei galluogi i barhau'n gystadleuol ar raddfa fyd-eang yn y maes digidol;
- Hinsawdd fuddsoddi ddynamig ar gyfer cynnwys, cymwysiadau a gwasanaethau digidol yn y DU, sy'n gwneud y DU yn lle deniadol ar gyfer buddsoddi mewnwladol a mewnfuddsoddi yn ein heconomi digidol;
- Cynnwys o'r DU ar gyfer defnyddwyr yn y DU: cynnwys o safon a maint sy'n gwasanaethu buddiannau, profiadau ac anghenion holl ddinasyddion y DU; yn neilltuol, newyddion, sylwebaeth a dadansoddiad diduedd;
- Tegwch a mynediad ar gyfer pawb: argaeledd cyffredinol, wedi ei gyplysu â'r sgiliau a'r llythrennedd digidol a fydd yn galluogi bron iawn bawb i gymryd rhan yn yr economi digidol a chymdeithas ddigidol; a
- Datblygu isadeiledd, sgiliau a defnydd er mwyn galluogi darpariaeth ar-lein eang o wasanaethau cyhoeddus ac o ryngwynebu rhwng busnes a Llywodraeth.

Bydd darllenwyr yr adroddiad interim hwn yn gweld bod amrywiol lefelau o fanylder a dadansoddi yng ngwahanol adrannau'r adroddiad. Mae hyn yn anochel mewn adroddiad interim, ac mae'n adlewyrchu'r ffaith fod yna rai meysydd, lle ceir problemau dybryd, lle mae gwybodaeth bresennol am y problemau, a oleuir yn neilltuol gan adolygiadau blaenorol a gwaith Ofcom ymysg eraill, wedi caniatáu i ni symud ymlaen

yn gyflymach yn ein meddwl a'n datblygiad o bolisi. Ceir meysydd lle mae'r adroddiad interim hwn yn adlewyrchu canfyddiadau sydd wrthi'n dod i'r golwg; a'r meysydd hynny lle mae arnom angen cynnal ymgynghoriad ac ystyriaeth lawer ehangach, gan gynnwys trafodaethau ar draws Llywodraeth, cyn i ni gyflwyno argymhellion manwl er mwyn darparu rhaglen fwy cynhwysfawr ar gyfer Prydain Ddigidol. Bu'r broses hyd yma'n bell o fod yn gynhwysfawr. Mae llawer o agweddau ar y sector hanfodol hwn, a'i gysylltiadau ehangach â'n heconomi a'n cymdeithas, nad ydym ond megis yn cyffwrdd â hwy – o dechnoleg 'grid clyfar' i'r cysylltiadau rhwng yr Economi Gwybodaeth ac Economi Carbon Isel, a manylion y genhedlaeth newydd o ddarpariaeth o wasanaethau cyhoeddus ar-lein.

Ar sail y pum amcan uchod, mae'r prif gamau gweithredu a restrir yn yr adroddiad hwn fel a ganlyn:

Rhwydweithiau Digidol

Mewn perthynas â'r **Genhedlaeth Nesaf o Rwydweithiau Mynediad**, rydym yn awgrymu nifer o gamau gweithredu penodol:

CAM GWEITHREDU 1

Byddwn yn sefydlu grŵp strategaeth sy'n cael ei arwain gan y Llywodraeth, i bwyso a mesur y mesurau rheoleiddio sydd eu hangen fel sail i gynlluniau buddsoddi presennol sy'n ymateb i'r farchnad, ac i ddiddymu'r rhwystrau i ledaeniad amserol y tu hwnt i'r cynlluniau datganedig hynny, er mwyn mwyafu cwmpasiad cenhedlaeth nesaf band eang mewn ymateb i'r farchnad. Bydd y Grŵp Strategaeth hwn, erbyn y cyhoeddir yr Adroddiad 'Prydain Ddigidol' terfynol, wedi pwyso a mesur pa mor bell y bydd buddsoddiant sy'n ymateb i'r farchnad, gan Virgin Media, BT Group plc a mentrau rhwydwaith newydd, yn mynd â'r DU o ran lledaeniad a defnydd tebygol; ac a oes angen unrhyw fesurau wrth gefn o'r math yr argymhellodd adolygiad Caio.

CAM GWEITHREDU 2

Rhwng hyn a'r Adroddiad 'Prydain Ddigidol' terfynol, bydd y Llywodraeth, gan gydnabod buddsoddiadau presennol mewn isadeiledd, yn gweithio gyda'r prif weithredwyr ac eraill i ddileu rhwystrau i ddatblygiad marchnad gyfanwerthu ehangach ym maes mynediad i ddwythellau ac isadeiledd sylfaenol arall.

CAM GWEITHREDU 3

Mae Asiantaeth y Swyddfa Brisio wedi darparu cyfarwyddyd clir newydd sy'n mynd i'r afael â'r broblem eglurder ynglŷn â Threthi Busnes a nodwyd gan Francesco Caio yn ei adroddiad, a bydd yn sicrhau bod yr Asiantaeth yn ymateb i unrhyw ymholiadau gan fuddsoddwyr presennol a newydd ac yn parhau i ddarparu arweiniad clir a defnyddiol. O'i rhan hi, bydd y Llywodraeth yn sicrhau bod y cyfarwyddyd yn cael ei ddeall ar raddfa eang gan fuddsoddwyr posibl.

CAM GWEITHREDU 4

Fe fyddwn, erbyn cyhoeddi'r Adroddiad 'Prydain Ddigidol' terfynol, wedi ystyried yr achos, o ran gwerth am arian, dros gredu bod gan anogaethau cyhoeddus ran i'w chwarae mewn galluogi defnydd pellach o genhedlaeth nesaf band eang, y tu hwnt i'r mentrau cyfredol sy'n ymateb i'r farchnad.

CAM GWEITHREDU 5

Bydd y Llywodraeth yn helpu i weithredu cynigion y Rhwydwaith Band Eang Cymunedol am gorff mantell a fydd yn dod â'r holl rwydweithiau lleol a chymunedol ynghyd ac yn darparu cymorth technegol ac ymgynghorol ar eu cyfer.

Mewn perthynas â'r **Rhwydweithiau Di-wifr Symudol** presennol, a rhai'r genhedlaeth nesaf:

CAM GWEITHREDU 6

Rydym yn pennu Rhaglen ar gyfer Moderneiddio'r Sbectrwm Radio Di-wifr, a fydd yn cynnwys pum elfen:

a. Penderfynu dyfodol y sbectrwm radio 2G presennol drwy fframwaith strwythuredig, gan ganiatáu i weithredwyr presennol adlinio'u daliadau presennol, ailddefnyddio'r sbectrwm a chychwyn y symudiad tuag at y genhedlaeth nesaf o wasanaethau symudol. Rhaid i hyn gael ei gyflawni tra'n cynnal marchnad gystadleuol. Pe gellid gwneud hynny, byddai'n ychwanegu at werth economaidd y sbectrwm. Byddai lefelau prisio anogaeth gweinyddedig (AIP) yn cael eu haddasu i adlewyrchu'r ychwanegiad hwnnw. Mae'r Llywodraeth yn credu y gallai set o gyfnewidiadau sbectrwm radio a oedd wedi ei chytuno gan y diwydiant fod yn ateb gwell a chyflymach nag adliniad gorfodol. Mae cyfle yma i'r diwydiant gytuno ar ffordd ymlaen erbyn diwedd Ebrill 2009. Os na cheir cyfnewidiad a gytunwyd gan y diwydiant erbyn hynny, bydd y Llywodraeth yn cefnogi ateb gorfodol.

b. Trefnu bod rhagor o sbectrwm radio sy'n addas ar gyfer y genhedlaeth nesaf o wasanaethau symudol ar gael. Mae Ofcom wedi cynnig y dylid rhyddhau'r band ymlediad 3G (fel y'i gelwir) ar amledd o 2.6GHz. Bydd y Llywodraeth yn cefnogi cynigion gan Ofcom i chwarae rôl allweddol mewn aliniad holl-Ewropeaidd o Sbectrwm Difidend yr Adolygiad Digidol (y band Sianel 61–69, fel y'i gelwir), sy'n cael ei ryddhau gan y newid graddol o ddarlledu analog i ddarlledu digidol a arloeswyd gan y DU. Bydd hyn yn rhyddhau sbectrwm radio a fydd yn neilltuol o werthfawr ar gyfer y genhedlaeth nesaf o wasanaethau symudol.

c. Mwy o sicrwydd o fuddsoddiad ar gyfer gweithredwyr 3G presennol: mae'r Llywodraeth yn dymuno annog y buddsoddiad mwyaf sy'n fasnachol synhwyrol mewn cynhwysedd a chwmpasiad. Fodd bynnag, po bellaf yr ymrwymir i drwydded cyfnod penodol, mwya'n y byd yw'r anghymhelliad i fuddsoddi. Rydym yn dymuno datrys y broblem hon yn awr fel rhan o'r fframwaith strwythuredig. Fel rhan o'r fframwaith masnachu strwythuredig, gellid gwneud y trwyddedau presennol sydd â therfyn amser arnynt yn rhai penagored, ac yn ddarostyngedig yn hytrach i AIP ar ddiwedd y tymor presennol. Pe bai hyn yn cael ei gyflawni, byddai'r Llywodraeth

yn ymorol am sicrhau bod yr AIP a oedd yn cael ei bennu bryd hynny'n adlewyrchu gwerth economaidd llawn y sbectrwm, ac y byddai o'r herwydd yn dal, dros amser, adenillion a oedd yn gyfwerth â'r enillion a fuasai wedi cael eu sylweddu yn y farchnad mewn arwerthiant ar gyfer trwydded ar gyfer yr un cyfnod.

d. Mwy o rannu rhwydweithiau: bydd y Llywodraeth ac Ofcom yn ystyried cynigion pellach gan y gweithredwyr ar gyfer rhannu rhwydweithiau, rhannu sbectrwm neu rannu cludyddion, yn enwedig lle mae'r rhain yn gallu deillio ar ragor o gwmpasiad a lle maent yn rhan o gyfraniad gweithredwr symudol i ymrwymiad i ddarparu gwasanaeth band eang cyffredinol.

e. Ymrwymiadau gan y gweithredwyr symudol i ymledu cwmpasiad band eang symudol, ymhen amser, i ddyblygu cwmpasiad 2G a dangos eu cyfraniad sylweddol i'r ymrwymiad i wasanaeth band cyffredinol.

Mewn perthynas â **Rhwydweithiau Teledu** Digidol:

CAM GWEITHREDU 7

Byddwn yn ystyried ar ba adeg, ac am ba gost, y gallai'r cynnig safonol a ddarperid gan y Cynllun Cynorthwyo Newid i Deledu Digidol gynnwys y gallu i drosglwyddo ymatebion awtomatig, a byddwn yn sicrhau bod gallu o'r fath ar gael fel dewis.

CAM GWEITHREDU 8

Byddwn yn edrych ar sut y gellid gwella'r gweithgarwch marchnata a chyfathrebu sy'n gysylltiedig â'r Newid i Ddigidol, er mwyn defnyddio'r rhaglen sy'n darparu gwybodaeth a chyngor fesul rhanbarth, ynglŷn ag un math o drawsnewidiad digidol, ar gyfer darparu gwybodaeth ddiduedd ynglŷn â chyfleoedd ehangach am ddarlledu digidol y tu hwnt i ddarllediadau teledu digidol.

Mewn perthynas â **Rhwydweithiau Radio** Digidol:

CAM GWEITHREDU 9

Byddwn yn gweithredu i gefnogi radio digidol DAB mewn saith maes:

a. Rydym yn gwneud datganiad clir o ymrwymiad y Llywodraeth ar lefel polisi i alluogi DAB i fod yn brif rwydwaith dosbarthu ar gyfer radio;

b. Byddwn yn creu cynllun ar gyfer ymfudiad digidol radio; bwriad y Llywodraeth yw gweithredu'r cynllun hwn unwaith y bydd y meini prawf canlynol wedi eu bodloni:

   – Pan fydd 50% o'r gwrando ar radio'n ddigidol;

   – Pan fydd cwmpasiad DAB ar raddfa genedlaethol yn debyg i gwmpasiad FM, a DAB lleol yn cyrraedd 90% o'r boblogaeth a'r holl brif ffyrdd.

c. Byddwn yn creu Grŵp Darparu Radio Digidol sy'n cynnwys yr adwerthwyr, y Rhwydweithiau Trosglwyddo, y BBC, y Cwmnïau Radio Masnachol, Gwneuthurwyr Ceir, cynrychiolwyr defnyddwyr, a gwneuthurwyr dyfeisiau. Eu rôl fyddai cynyddu apêl, argaeledd a fforddiadwyedd DAB a chynghori ynglŷn â'r Cynllun Ymfudiad Digidol.

d. Byddwn yn gweithio gyda'r BBC i edrych ar sut y gallent ymestyn eu cwmpasiad radio digidol i ddyblygu, o leiaf, y cwmpasiad FM analog cyfredol.

e. Yn unol ag argymhelliad y Gweithgor Radio Digidol, byddwn yn cynnal dadansoddiad cost a budd o ymfudiad digidol.

f. Byddwn yn ymgynghori ynglŷn â deddfwriaeth newydd i ganiatáu estyniad pum mlynedd unwaith-ac-am-byth o'r trwyddedau radio cymunedol presennol, er mwyn eu cysoni â thrwyddedau radio eraill a chydnabod y rôl bwysig sydd ganddynt o ran darparu budd cymdeithasol. Rydym hefyd yn bwriadu ailystyried y sail resymegol dros y cyfyngiad cyfredol sy'n golygu na chaiff mwy na 50% o noddiant ariannol ddod o unrhyw un ffynhonnell.

g. Byddwn yn comisiynu archwiliad arbenigol annibynnol o hyfywdra economaidd a chyfraniad cymdeithasol parhaus radio lleol, y dulliau darparu mwyaf effeithiol ar gyfer gwasanaethau o'r fath, a pherthnasedd y ddeddfwriaeth bresennol ynglŷn â lleoldeb.

Cynnwys Digidol

Mewn perthynas ag **Economeg Cynnwys Digidol**:

CAM GWEITHREDU 10

Yn yr adroddiad terfynol byddwn yn edrych yn fanylach ar fesurau sydd eu hangen ar gyfer mynd i'r afael â'r sialensiau i gynnwys digidol, gan gynnwys cyfleoedd i ddarparu cefnogaeth bellach er mwyn meithrin uchelgais creadigol yn y DU a dulliau ariannu eraill y gellid eu defnyddio yn lle refeniw hysbysebu.

Mewn perthynas â **Hawliau a Dosbarthiad**:

CAM GWEITHREDU 11

Erbyn y bydd yr Adroddiad 'Prydain Ddigidol' terfynol yn cael ei gyhoeddi, bydd y Llywodraeth, ar y cyd â chyfranogion, wedi edrych ar y posibiliadau am Asiantaeth Hawliau a fyddai'n dod â'r diwydiant ynghyd i gytuno ar sut i ddarparu anogaethau i ddefnydd cyfreithlon o ddeunydd sydd dan hawlfraint; i weithio gyda'i gilydd i rwystro defnydd anghyfreithlon, gan ddefnyddwyr, sy'n torri'r gyfraith sifil ar hawlfraint; ac i alluogi atebion technegol, i broblemau cefnogi hawlfraint, sy'n llwyddo o safbwynt defnyddwyr a chrewyr cynnwys fel ei gilydd. Mae'r Llywodraeth yn croesawu, yn ogystal, awgrymiadau eraill ynglŷn â sut y gellid cyflawni'r amcanion hyn.

CAM GWEITHREDU 12

Cyn i'r Adroddiad 'Prydain Ddigidol' terfynol gael ei gyhoeddi, byddwn yn edrych, ar y cyd â dosbarthwyr a deiliaid hawliau, ar eu parodrwydd i ariannu, drwy gyfraniad cymedrol a chymesur, ddull newydd o'r fath ar gyfer gorfodaeth sifil o hawlfraint (oddi mewn i'r fframweithiau cyfreithiol sy'n berthnasol i fasnach electronig, hawlfraint, diogelu data a phreifatrwydd) er mwyn hwyluso a chydlynu ymateb gan y diwydiant i'r her hon. Bydd yn bwysig sicrhau bod y dull hwn yn bodloni'r angen am wasanaethau

arloesol cyfreithlon i ddiwallu gofynion defnyddwyr, ac am weithgarwch addysg a gwybodaeth i addysgu defnyddwyr ynglŷn â dulliau teg a phriodol o ddefnyddio deunydd sydd dan hawlfraint, yn ogystal â gwaith gorfodi ac atal.

CAM GWEITHREDU 13

Mae ein hymateb i'r ymgynghoriad ynglŷn â rhannu ffeiliau rhwng cymheiriaid yn datgan ein bwriad i ddeddfu, gan ei gwneud yn ofynnol ar ISPs i roi gwybod i rai yr honnir eu bod yn torri hawliau fod eu hymddygiad yn anghyfreithlon (yn amodol ar lefelau rhesymol o brawf gan ddeiliaid yr hawliau). Rydym hefyd yn bwriadu ei gwneud yn ofynnol ar ISPs i gasglu gwybodaeth ddienw (sy'n deillio o weithgareddau hysbysu'r ISPs) ynglŷn â rhai sy'n troseddu'n ddifrifol dro ar ôl tro, a sicrhau bod yr wybodaeth ar gael i ddeiliaid hawliau, ynghyd â manylion personol pan dderbynnir gorchymyn llys i'w darparu. Rydym yn bwriadu ymgynghori ynglŷn â'r dull hwn yn fuan, gan egluro ein cynigion yn fanwl.

Mewn perthynas â darparu **Cynnwys Gwreiddiol o'r DU**:

CAM GWEITHREDU 14

Er mwyn cael gwybod a ydyw unrhyw newid i'r drefn gyfuno'n ddymunol neu'n angenrheidiol eto, mewn perthynas â'r sector cyfryngau lleol a rhanbarthol, bydd y Llywodraeth yn gwahodd yr OFT, ynghyd ag Ofcom a chyfranogion eraill, i gynnal adolygiad archwiliadol ar draws y sector cyfryngau lleol a rhanbarthol a gwneud argymhellion priodol.

CAM GWEITHREDU 15

Mae'r Telerau Masnachu presennol rhwng y cynhyrchwyr annibynnol a'r darlledwyr wedi gweithio'n dda. Gyda golwg ar newydd-ddyfodiaid i'r farchnad, modelau busnes newydd a sianelau dosbarthu newydd, mae'n gwneud synnwyr i gymryd golwg ymlaen ar sut y gallai'r berthynas rhwng cynhyrchwyr annibynnol a'r rhai sy'n comisiynu eu syniadau ddatblygu. Bydd yr adolygiad hwn yn canolbwyntio ar y cytundebau priodol ynglŷn â dal hawliau, a'r diffiniadau sydd eu hangen ar gyfer dyfodol aml-lwyfan digidol; ar iechyd cyffredinol y sector; ac ar barhau i sicrhau bod gwylwyr, gwrandawyr a defnyddwyr yn cael y cynnwys a'r rhaglenni mwyaf arloesol.

CAM GWEITHREDU 16

Yn yr Adroddiad 'Prydain Ddigidol' terfynol, byddwn yn canfod a oes modd diffinio a chynllunio ail sefydliad gwasanaeth cyhoeddus hirdymor a chynaliadwy sy'n darparu cystadleuaeth i'r BBC o ran ansawdd, gan wneud defnydd rhannol o asedau Sianel 4 a phennu cylch cyfrifoldeb am ail-lunio. Byddai'n gorff yr oedd gwasanaeth cyhoeddus yn greiddiol iddo, ond hefyd yn un a oedd yn gallu datblygu partneriaethau hyblyg ac arloesol gyda'r sector preifat a'r sector cyhoeddus ehangach. Er ei bod yn gwneud synnwyr i ddechrau drwy edrych ar gyrff sector cyhoeddus megis Sianel 4 a BBC Worldwide, mae'r Llywodraeth wrthi'n cloriannu amrywiaeth o ddewisiadau ac atebion cyfundrefnol ar gyfer cyflawni canlyniad o'r fath.

Cysylltedd Cyffredinol

Mewn perthynas â **Chysylltedd Cyffredinol ar gyfer Rhwydweithiau** ar Rwydweithiau Digidol:

CAM GWEITHREDU 17

Byddwn yn datblygu cynlluniau ar gyfer Ymrwymiad i Wasanaeth Cyffredinol sydd i fod mewn grym erbyn 2012, ac a fydd yn cael ei weithredu drwy gymysgedd o ddulliau sefydlog a symudol, gwifrog a di-wifr. Yn amodol ar astudiaeth bellach o'r costau a'r buddion, byddwn yn egluro ein cynlluniau ar gyfer y lefel o wasanaeth a ddylai fod ar gael ei bawb. Rydym yn rhagweld y bydd hyn yn cynnwys ystyried dewisiadau hyd at 2MB yr eiliad.

CAM GWEITHREDU 18

Byddwn yn datblygu cynigion manwl ar gyfer cynllunio a gweithredu cynllun ehangach i ariannu'r Ymrwymiad i Wasanaeth Cyffredinol ar gyfer yr oes gwbl ddigidol – gan gynnwys pwy ddylai gyfrannu, a beth fydd strwythurau'r cynllun ar gyfer trefn lywodraethol ac atebolrwydd.

Mewn perthynas â **nifer y rhai sy'n defnyddio band eang sydd ar gael i bawb**:

CAM GWEITHREDU 19

Byddwn yn cymell datblygiad pleidwyr defnydd cyffredinol yn y sector cyhoeddus. Gwnaeth y Cynllun Gweithredu Cynhwysiad Digidol argymhelliad y dylid penodi Pleidiwr Achos Cynhwysiad Digidol a thasglu o arbenigwyr i sbarduno gwaith y Llywodraeth ar gynhwysiad digidol. Mae'n amlwg y bydd gwaith y Pleidiwr Achos yn bwysig o ran annog defnydd.

CAM GWEITHREDU 20

Rydym yn gwahodd y BBC i chwarae rôl arweiniol, yn union fel y mae wedi ei wneud ym maes darlledu digidol, drwy farchnata, traws-hyrwyddo, a darparu cynnwys er mwyn sbarduno diddordeb mewn defnyddio band eang. Ar y cyd â sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus eraill, gall y BBC sbarduno datblygiad llwyfannau â safonau agored, a fydd ar gael i'r holl ddarparwyr cynnwys a gwneuthurwyr dyfeisiau fel ei gilydd.

CAM GWEITHREDU 21

Cynllun Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus: rydym yn ymrwymo i sicrhau y bydd gwasanaethau cyhoeddus ar-lein yn cael eu cynllunio ar gyfer cael eu defnyddio'n rhwydd gan yr amrediad ehangaf posibl o ddinasyddion, gan fanteisio ar y defnydd eang o fand eang i gynnig profiad gwell i gwsmeriaid a hybu'r newid i sianelau ar-lein wrth ddarparu a chefnogi gwasanaethau.

Arfogi pawb i gael budd o Brydain Ddigidol

Mewn perthynas â **Llythrennedd Cyfryngol Digidol**:

CAM GWEITHREDU 22

Mae'r cylch cyfrifoldeb statudol a phenodol cyfredol am Lythrennedd Cyfryngol wedi ei gynnwys yn adran 11 o Ddeddf Cyfathrebu 2003. Fel y mae'r adroddiad hwn yn dangos, cafwyd newidiadau sylweddol yn y farchnad ers 2003 o ran argaeledd technolegau digidol a sut y maent yn cael eu defnyddio. Byddwn yn gofyn i Ofcom gynnal asesiad o'i chyfrifoldebau cyfredol mewn perthynas â llythrennedd cyfryngol, ac argymell, mewn cydweithrediad â'r BBC ac eraill, ddiffiniad ac uchelgais newydd ar gyfer Cynllun Llythrennedd Cyfryngol Cenedlaethol.

Mae'r adroddiad interim hwn yn egluro'r cefndir i'r gweithredoedd hyn a'r dadansoddiad y maent wedi eu seilio arno, yn ogystal â darparu rhagor o fanylion ynglŷn â sut yr ydym yn bwriadu eu cyflawni.

Rwy'n ddiolchgar i'r Ymgynghorwyr Arbenigol ar y Bwrdd Llywio, ac i'r budd-ddeiliaid niferus sydd wedi rhoi mor hael o'u hamser i gynhyrchu'r canfyddiadau a'r cynigion hyn sydd wrthi'n datblygu, ac i'r tîm prosiect sydd wedi gweithio'n ddiflino ers yr hydref diwethaf.

Printed in the UK on recycled paper containing a minimum of 75% post consumer waste.
Department for Business, Enterprise and Regulatory Reform. www.berr.gov.uk
First published February 2009. © Crown copyright. URN 09/710